

# Gwyddoniaeth Gwych

## Côt law Siôn Corn

---

### Canllaw gwers i gymorthyddion - gyda llawer o ddiolch

1. Ceisio cael y plant i ddeall bod rhai deunyddiau efo gwead tynnach na'i gilydd (e.e. gwlan yn weddol dyllog, polyester yn wead tynn iawn). Y mwyaf llac (a thylllog) ydi'r defnydd y mwya'n byd o ddwr eith drwyddo.
2. Hyn yn arwain o'r pwynt cyntaf, uchod. Ydi'r plant yn gallu dweud pa mor dyllog ydi deunyddiau eraill e.e siwmpwr ysgol, *fleece*, papur cegin, *cling film* ac yn y blaen?
3. Mae'r cwestiwn hwn yn ceisio dod â llythrennedd ac iaith i mewn i'r wers wyddoniaeth (i ateb gofynion trawsgwricwlaidd). E.e, polyester glas = 'llyfn', 'ysgafn'. Gwlan = 'meddal', 'fflwflyd', 'cynnes'.
4. Yma, dwi'n trio eu cael nhw i feddwl am pa mor drwchus ydi'r deunydd ac ydi o'n gynnes i'w wisgo. A fydd Siôn Corn yn debygol o chwysu mwy yn un na'r llall? Ydi un deunydd am bara yn hirach na'r llall?
5. Trafod y syniad o ddeunydd yn gallu dal dwr. Trafod deunyddiau fel *cling film*, cyrtan cawod, ymbarél ac efallai eu cotiau'r plant eu hunain. Hefyd welis a 'sgidiau sy'n dal dwr. Cotiau rybyr, *poncho* plastig.
6. Yn dilyn oddi ar y drafodaeth uchod, egluro beth ydi 'gwrth ddwr'.

**Amser arbrofi:** Cynnal yr arbrawf.

Sicrhau bod yr un faint o ddwr yn cael ei ddefnyddio **bob tro** (awgrymu **50ml**) Angen rhywbeth i fesur amser o **1 munud**. Mae'n bwysig iawn bod amser yr arbrawf yr un fath bob tro.

Mesur faint o ddwr sy'n mynd drwy'r defnydd, gan ddefnyddio'r jygiau hir, tal. Cofnodi'r data a'i roi y JiT5 ar Hwb.

#### Yn gyffredinol, i brocio'r meddwl

Ydi lliw'r gôt yn gwneud gwahaniaeth i ba mor wrth ddwr ydi hi?

Pa ddau ddeunydd, o'u cyfuno, fysa'n gallu cadw Siôn Corn yn sych a chynnes.

**Diolch genod!!!**